Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 No. 3177

Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2013

RHAN 13

CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU

Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod y flwyddyn academaidd

123.—(1) Os digwydd un o'r digwyddiadau a restrir ym mharagraff (2) yn ystod blwyddyn academaidd—

(a) caiff myfyriwr fod â'r hawl i gael grant o dan y Rhan hon mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd honno yn unol â'r Rhan hon; a

(b) nid oes grant o'r math sydd ar gael o dan y Rhan hon ar gael mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn academaidd yn dechrau cyn y flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi.

(2) Y digwyddiadau yw—

(a) cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs ôl-radd dynodedig;

(b) y myfyriwr, neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) yn cael ei gydnabod yn ffoadur neu'n dod yn berson â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(c) y wladwriaeth y mae'r myfyriwr yn un o'i dinasyddion yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr wedi bod yn preswylio'n arferol yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(d) y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol;

(e) y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(f) y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Ran 2 o Atodlen 1; neu

(g) y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.